Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/Clerk: Heulwen Bulman

Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS WENER 8 RHAGFYR 2017 AM 7.00 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 2017

1. **CROESO**
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol gan gynnwys Mrs Hazel Lloyd-Lubran, CAVO Llanbedr Pont Steffan a oedd wedi dod i sgwrsio am y cynlluniau oedd CAVO yn bwriadu ymgymryd yn y misoedd nesaf i adfywio/arolygu'r Dre.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mr Gwern Evans, Siop Rhiannon Cyf a oedd yn methu bod yn bresennol i sgwrsio am ei gynlluniau i hybu'r Dref. Bwriadu gwahodd Mr Evans i'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

PRESENNOL: Cyng. David Bennett (Cadeirydd), Karine Davies, Cyng Catherine Hughes, Gwilym Jenkins, Ann Jones, Arwel Jones, June Owens a Cyng Rhydian Wilson

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng Manon Wyn James, Alun Owen a Cyng Gary Rees

3. **MATERION PERSONOL**
Dim i'w gofnodi.

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**
Neb

5. **CADARNHAU COFNODION 10 TACHWEDD 2017**
Angen newid pwynt 16 i ddarllen:-

Cyng Karine Davies yn sylwi o'r cofnodion blaenorol fod yna ddim cynllun tymor hir yn amlwg. Sylwer fod gymaint o bethau i drafod ynglŷn ar gymuned e.e. a ddylai'r Cyngor Tref fod yn fwy proactive yn darganfod beth yw'r anghenion? Soniwyd fod trefniadau ar y gweill i Cyng Catherine Hughes wahodd aelod o CAVO i ddod allan i sgwrsio efo'r cynghorwyr am gynllun o adfywio Tregaron.

Cynnig: Cyng Arwel Jones
Eilio: Cyng Ann Jones

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
6.1 Derbyniwyd caniatâd defnyddio logo'r Cyngor Tref oddi wrth Mr Geoffrey Hughes ar sticeri'r Cyngor, o dan yr amod bod hawlfraint y log yn cael ei harddangos o dan enw Mr Geoffrey Hughes.
6.2 Diolchwyd i Cyng Gwilym Jenkins am wneud arolwg gweledol ar y parc dros y mis diwethaf a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb i Cyng Catherine Hughes am y mis i ddod.
6.3 Gwaith wedi'u ddechrau gan Mr Aled Jones ar yr eitem yn y parc ond heb ddod i ben i gwpla hyd yma.
6.4 Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Technoleg Taliesin fod nhw'n medru ychwanegu'r app cyfieithu yn rhad ac am ddim ar ein gwefan, Clerc i barhau i gysylltu â chael esiampl o'r app erbyn y cyfarfod nesaf.

6.5 Cynlluniau ar y gweill i'r Ganolfan Hamdden chael ei throsglwyddo'r i'r pwyllgor newydd ar 1af o Ionawr 2018.

6.6 Soniwyd mai Ms Beth Herridge, 13 Maesamlwg oedd yn gyfrifol am y clawdd lawr o Argoed am Abercoed oedd angen ei dorri nôl, Clerc i gysylltu.

6.7 Gweithiwr Strydlun yn awgrymu glanhau'r arwyddion unwaith eto.

6.8 Clerc i gysylltu â Cyng Alun Owen i siarad a thrafod efo Mr Eifion Davies, Llys Caron i ymgymryd â gwaith cynrychiolydd cynllun llifogydd cymunedol ac i fod yn bwynt cyswllt efo Cyfoeth Naturiol Cymru.

6.9 Clerc i anfon, drwy e-bost, y fwydlen am y cinio blynyddol i'r cynghorwyr.

6.10 Cyng David Bennet wedi ymweld â theulu Penlan Tregaron i drafod ymhellach am y posibilrwydd o gynnal Eisteddfod 2020 yn Nhregaron.

6.11 Cyngor Sir Ceredigion ar ddeall bod staff y fan Llyfrgell wedi cysylltu â'r defnyddwyr i gyd i esbonio am y diffyg gwasanaeth yn ddiweddar.

6.12 Golau stryd lawr Doldre yn gweithio'n foddhaol nawr.

6.13 Dwr dwfn dal yn cronni rhwng Fforest ag Abercoed, Tregaron, dal heb gael sylw'r Cyngor Sir.

6.14 Postyn golau stryd ym maes Parcio'r Pentref dal heb gael sylw'r Cyngor Sir.

7. **CYFRIFON**

7.1 Cyflog Gweithiwr Strydlun £137.90

7.2 Cyflog Clerc £237.60

7.3 Gareth Evans, 8 toriad yn y parc £320.00

7.4 RBL Poppy Appeal £25.00

7.5 Cyngor Sir Ceredigion – Golau Stryd £870.61

7.6 Cylchredwyd Adroddiad y Clerc am sefyllfa ariannol y Cyngor Tref, a thrafodwyd y praesept am 2018/19 a chytunwyd ar gynnig Cyng Gwilym Jenkins ac eiliwyd gan Cyng Ann Jones i adael y praesept ar £17,500

Cynnig: Cyng Arwel Jones
Eilio: Cyng June Owens.

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN**

Bwriad y gweithiwr strydlun yw glanhau'r arwyddion glas oedd yn croesawu mewn i Dregaron unwaith eto i weld sut fyddant yn glanhau. Angen iddo lanhau'r dail sydd wedi cwympo oddi amgylch y dre. Gofynnir i'r Clerc ymchwilio fewn i berchnogaeth y palmentydd tu allan i Arfyn, Alwyn House, etc Pentre, Tregaron gan fod angen ei glanhau.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

10. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

11.1 Derbyniwyd llythyr oddi wrth Alan Haird a oedd yn awyddus i gynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned gyda phroses ymgynghori i baratoi Cynlluniau Lleoedd ar gyfer eu cymunedau, drwy gwrdd â'r Cadeirydd ond trafodwyd y llythyr a chytunwyd i'r Cadeirydd drafod ymhellach ganddo ac o bosibl dod i roi cyflwyniad i'r Cyngor Tref.

11.2 Cynhelir cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned ar nos Fawrth 9fed o Ionawr 2018 am 6.30 yh yn Neuadd (Cynradd) Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan. Gofynnir i gymaint o gynghorwyr a phosibl i fynychu'r cyfarfod.

11.3 Derbyniwyd llythyr yn ein hysbysu am y sedd wag ar gorff llywodraethol Ysgol 3-16 Henry Richard. Gofynnir i'r Clerc gysylltu â'r bwrdd llywodraethol am eglurhad o'r sedd wag.

12. **UN LLAIS CYMRU**

Dim i'w gofnodi

13. **GOHEBIAETH**

Derbyniwyd holiadur 'Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys' i'w gwblhau, gofynnir i Cyng Karine Davies astudio'r ddogfen ag adrodd nol i'r cyfarfod nesaf.

14. **UNRHYW FATER ARALL**

14.1 Cyng Catherine Hughes i wneud ymchwil i'r sefyllfa am yr 'Ystwyth Trail'

14.2 Soniwyd fod yna linellau melyn ar ddod i Heol Dewi, Tregaron. Cytunwyd yn unfrydol nad oedd angen llinellau melyn i fynny'r Pentre am heol Abergwesyn, tu allan i Alwyn House.

14.3 Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth PCSO John Evans am y digwyddiadau yn y Dre dros y mis diwethaf.

14.4 Gofynnwyd i Cyng June Owens i siecio faint o grit/halen oedd yn weddill yn garej Alwyn Evans.

14.5 Soniwyd nad oedd bin grit/halen oedd wedi torri a mynd dros y dibyn yn Esgair Ffrwd dal heb ei glirio a'i adnewyddu.

14.6 Soniwyd fod angen sylw ar y 'finger posts' ar waelod Esgair Gelli, Ffrwd.

14.7 Palmant ar hyd Brynheulog yn llithrig ofnadwy.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR

CADEIRYDD